

CYNGOR GWYNEDD

ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod:	29 Ionawr, 2019
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai, Diwylliant & Hamdden
Swyddogion Cyswllt:	Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679685
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Perfformiad Tai, Diwylliant a Hamdden

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddarau ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Tai, Diwylliant a Hamdden. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion.
- 1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r ffin rheoli Economi a Chymuned ac Oedolion, Llesiant a Thai, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.
- 1.3. Rwy'n hapus efo'r perfformiad yn gyffredinol, ac yn awyddus i weld ni'n parhau i lwyddo er gwaetha'r holl heriau fydd yr adrannau yn wynebu yn y dyfodol agos. Blaenoriaeth gennyf yn y cyfnod nesa fydd i sicrhau bod gennym Strategaeth fydd yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer y Maes Tai i'r dyfodol.

Cyswllt:

01286 679729 • 01286 679490

cabinet@gwynedd.llyw.cymru



2. PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

4.1. Pwrpas y prosiect **Tai Addas a Fforddiadwy** yw sicrhau fod gennym ddealltwriaeth fanwl o natur y galw am dai o fewn ein cymunedau, fel y gallwn gynllunio ar gyfer y dyfodol a gwneud gwahaniaeth. I'r perwyl hyn mae'r Adran Tai wedi bod yn gweithio ar asesu anghenion Tai yng Ngwynedd ac wedi ymgynghori ar y canfyddiadau yn ystod y chwarter diwethaf. Mae'r gwaith o gwblhau'r Asesiad Anghenion Tai yn sylfaen gref i'r Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd (2018-2023) sydd ar fin cael ei chyflwyno i'r Cabinet yma yn ystod y Mis nesaf. Mae'r Strategaeth yn gosod uchelgais clir ar gyfer y maes Tai yn ei gyfanrwydd gyda Chartrefi fforddiadwy ac addas yn gyrru ein cynlluniau i'r dyfodol.

4.2 Mae'r prosiect **Adnabod a Hyrwyddo Cynlluniau a Mentrau Tai** yn ceisio gwella mynediad trigolion at gymorth sydd yn ymwneud ac anghenion Tai, gan adnabod mentrau a chynlluniau sydd ar gael i'w cynorthwyo. Mae'r heriau sydd yn wynebu pobl yn amrywio'n fawr ac mae'n allweddol ein bod yn rhoi beth sydd yn bwysig i bobl wrth galon ein hymyraethau. Eto mae'r Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd yn mynd i'r afael a hyn. Bydd yr Adran yn adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl o fewn y maes Tai i sicrhau ei fod yn cwrdd â beth sy'n bwysig i bobl ac yn cael ei ddarparu mor effeithiol â phosib.

5. MESUR PERFFORMIAD

5.1 Mae **Atodiad 1** yn adrodd ar fesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio yn Adran Economi a Chymuned. Yno, rwyf yn gyfrifol am Wasanaeth Hamdden, Ieuenctid, Adfywio Cymunedol, Amgueddfeydd a'r Celfyddydau, Archifau a Llyfrgelloedd a Gwybodaeth.

5.2 Pwrpas y **Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth** yw sicrhau mynediad trigolion Gwynedd at gefnogaeth, adnoddau a gwybodaeth sy'n rhoi'r cyfle iddynt ddysgu ac ennill sgiliau, darllen a mwynhau. Mae'n galonogol iawn fod 99% o ddefnyddwyr yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbynnir.

5.3 Bellach mae Prydles Llyfrgell Bethesda wedi ei drosglwyddo i ofal Partneriaeth Ogwen fel rhan o'r strategaeth Mwy na Llyfrau gan sicrhau dyfodol i wasanaethau Llyfrgell yn Nyffryn Ogwen.

5.4 Rwy'n falch iawn fod 2,422 o blant Gwynedd wedi cymryd rhan yn Sialens Ddarllen Haf Llyfrgelloedd Gwynedd yn ystod Haf 2018, gyda 1,681 yn cwblhau'r sialens. Golyga hyn fod y plant wedi ymweld â'u llyfrgell o leiaf 3 gwaith yn ystod cyfnod gwyliau'r haf hyd at ddiwedd mis Medi, gan lwyddo i ddarllen o leiaf 6 llyfr. Cafodd 46,851 o lyfrau plant eu darllen dros gyfnod y sialens a bu dros 1,000 o blant fynychu gweithgaredd Hwyl Haf i Blant a drefnwyd gan Lyfrgelloedd Gwynedd. O gymharu gyda ffigwr cenedlaethol i Gymru, roedd Gwynedd yn 5ed (allan o 22) o ran nifer yn cymryd rhan. Mae canlyniadau'r Sialens yn gadarnhaol iawn, ac mae'n dangos fod Llyfrgelloedd lleol yn adnodd hanfodol er mwyn galluogi mynediad.

- 5.5 Mae gwaith da iawn wedi gwneud ym Mhenygroes, yn dilyn tensiwn oedd wedi codi rhwng anghenion pobl ifanc a defnyddwyr eraill y Llyfrgell. Trefnwyd cyfarfod o gynrychiolwyr gwasanaethau plant a phobl ifanc yn yr ardal, ac mae'r grŵp yn edrych ar gydwethio traws-sector er mwyn cefnogi'r cynnig Hamdden a dysgu i bobl ifanc yn Nyffryn Nantlle.
- 5.6 Mae'r **Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau** yn rhedeg dwy amgueddfa yng Ngwynedd ac yn gyfrifol am edrych ar gasgliadau a chreu arddangosfeydd yn y ddwy, sef: Storiell ac Amgueddfa Lloyd George. Mae grant CDL wedi ei sicrhau er mwyn edrych ar opsiynau ar gyfer sicrhau dyfodol Amgueddfa Lloyd George. Rydw i yn awyddus i adolygu model busnes Storiell, er mwyn sicrhau gwneud y defnydd gorau o'r adnodd mewn modd cynaliadwy.
- 5.7 Cafodd Neuadd Buddug ei gau ddiwedd Rhagfyr 2018, a bydd yr adnoddau yn cael ei throsglwyddo i'r Ysgol ym mis Ionawr er mwyn darparu adnodd celfyddydol cymunedol.
- 5.8 Pwrpas y **Gwasanaeth Archifau** yw gwarchod ein cofnodion cyhoeddus a sicrhau fod gan bobl fynediad atynt, drwy ddarparu dau Archifdy yng Ngwynedd. Mae'n gadarnhaol fod 97% o ddefnyddwyr yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth. Mae gostyngiad yng nghyllideb Gwasanaeth Archifau i Ysgolion wedi'i restru fel toriad posibl, ond hoffwn dynnu sylw i bwysigrwydd y gwasanaeth hwn i'n hysgolion drwy gynnig cyfleoedd i fagu sgiliau perthnasol fel yr argymhellir hwy yn y Cwricwlwm yn ogystal â datblygu cynulleidfa ifanc i ymddiddori yn hanes eu cymuned i greu ymdeimlad o berthyn a chryfhau eu hunaniaeth.
- 5.9 Mae'r **Gwasanaeth Adfywio Cymunedol** yn cefnogi pobl a mentrau lleol i chwarae rhan allweddol yn y broses adfywio. Rydw i yn falch o weld y tîm yn torri tir newydd yn Bermo, drwy gynnal peilot trosglwyddo asedau Bermo, mae'r gwaith cynllunio busnes wedi cwblhau gyda chytundeb yn lleol ar y ffordd ymlaen.
- 5.10 Pwrpas y **Gwasanaeth Ieuentid** yw sicrhau mynediad at ystod o brofiadau dysgu anffurfiol i bobl ifanc (11-25 oed) sy'n rhoi'r cyfleoedd iddynt ennill sgiliau, mentro, mwynhau a chwarae rhan lawn yn eu cymunedau.
- 5.11 Bellach mae'r strwythur staffio newydd mewn lle a recriwtio yn parhau, ac mae staff yn adrodd eu bod yn hapus iawn yn eu gwaith "Dwi'n lyfio fy swydd". Mae'n galonogol iawn fod 1,107 o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth hyd yma, drwy amryw o weithgareddau gan gynnwys gwaith ymgysylltu, gwirfoddoli yn eu cymuned, sgiliau coginio a chwaraeon. Mae ymateb da iawn wedi derbyn gan bobl ifanc a rhieni, "Meddwl y byswn i'n rhoi adborth i chi ar ôl i'r mab fynychu sesiwn ym Mhenygroes nos lau dwytha - roedd o a'i ffrindiau wedi mwynhau eu hunain yn ofnadwy - yng ngeiriau'r mab pan ddaeth i mewn i'r car - "O Mam - oedd hwna'n class wan sdi!" (e-bost gan riant).
- 5.12 Cefais y fraint o groesawu ac agor Lansiad y Gwasanaeth Ieuentid Ôl-16 yn ddiweddar a braf oedd cael clywed gan bobl ifanc am eu llwyddiant yn sgil cael cefnogaeth gan y tîm hwn.
- 5.13 Mae'r gwaith o gefnogi Cynghorau Cymuned yn parhau, gyda chlybiau cymdeithasol bellach wedi eu sefydlu ac ar agor yn Nefyn, Caernarfon, a Llanrug, a gwaith recriwtio yn parhau yn Bryn-crug, Porthmadog a Blaenau Ffestiniog.

- 5.14 Mae'r Gwasanaeth Hamdden yn rheoli rhwydwaith o 12 o **Ganolfannau Byw'n lach** yn y Sir. Mae'r gwaith yn parhau gyda sefydlu'r cwmni Byw'n lach Cyf, gyda llawer o ymdrech yn mynd mewn i'r broses, mae'n braf gweld fod y gwasanaeth yn dysgu dipyn o'r broses. Mae'r gwaith yn mynd ymlaen yn unol a'r amserlen, ac bydd y gwasanaeth yn trosglwyddo ar Ebrill 1af 2019.
- 5.15 Hoffwn dynnu'ch sylw i'r risg o golli incwm sylweddol o'r canolfannau gyda chyflwr y caeau 3G yn dirywio, rydym eisoes wedi gweld yr effaith gyda chae 3G Plas Ffrancon yn cau. Mae'n risg ar berfformiad cyllidol y Gwasanaeth, ac felly mae angen cael cynllun mewn lle ar gyfer trefniadau adnewyddu. Rydw i yn falch o weld perfformiad Plas Ffrancon wedi gwella yn dilyn cwblhau Asesiad Quest.
- 5.16 Yn ogystal mae'r Gwasanaeth Hamdden yn darparu **rhaglenni Byw yn lach a Chwaraeon** sy'n cynnig ystod o weithgareddau corfforol cynhwysol. Mae newid i drefniadau y grant dderbynnir gan Chwaraeon Cymru, yn ystod mis Rhagfyr mae Awdurdodau Lleol a partneriaid yn rhanbarth y Gogledd wedi cytuno symud ymlaen i baratoi cynnig grant rhanbarthol ar gyfer y dyfodol.
- 5.17 Rydw i yn falch iawn fod newid ym model ariannu cynllun NERS yng Ngwynedd sydd yn golygu fod hyblygrwydd i gynnig holl weithgareddau NERS ym mhob lleoliad, sy'n sicrhau fod holl drigolion Gwynedd yn cael mynediad i'r un cynnig.
- 5.18 Mae'r Cynllun Llysgenhadon Ifanc Gwynedd yn parhau yn llwyddiannus gyda 255 o Lysgenhadon yn rhoi oriau o amser gwirfoddoli i'r cynllun. Rydw i yn falch iawn fod 8 o Lysgenhadon wedi cynrychioli'r Awdurdod yng Nghynhadledd Genedlaethol yng Nghaerdydd, gyda Hannah Hughes sy'n gyfrifol am y cynllun yn ennill Swyddog Llysgenhadon Ifanc y flwyddyn.
- 5.19 Pwrpas y prosiect **Cydymdrechu yn erbyn tlodi** yw adolygu ein trefniadau yn y maes Tlodi er mwyn sicrhau ein bod yn targedu ein hymdrechion yn y lle y gwnaiff fwyaf o wahaniaeth. Trosglwyddwyd y prosiect yma o'r Adran Economi i'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd eleni.
- 5.20 Gydag amserlen cyflwyno Credyd Cynhwysol yn y Sir yn llithro, penderfynwyd cadw'r prosiect yn fyw hyd at ddiwedd Mawrth 2019 er mwyn parhau i gefnogi pobl i ymdopi gyda newidiadau i fudd-daliadau. Mae'r gwaith yn symud ymlaen dan arweiniad y Grŵp Diwygio Lles Gwynedd. Lanswyd ymgyrch marchnata drwy Newyddion Gwynedd a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth a hysbysu trigolion sut i baratoi ar gyfer y newidiadau. Bellach mae Credyd Cynhwysol yn fyw yng Ngwynedd ers mis Rhagfyr 2018.
- 5.21 Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu cefnogaeth cymorth ariannol (PBS) i hawlwr newydd Credyd Cynhwysol nes diwedd mis Mawrth 2019, gyda CHAB yn cynnig y ddarpariaeth wedi hynny. Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu'r gronfa Tâl Tai Dewisol gyda 1,370 o geisiadau wedi cymeradwyo i ddyddiad eleni.
- 5.22 Mae angen dod i gytundeb ar ffordd ymlaen gyda'r prosiect yma gan ystyried y cyd berthynas gyda'r strategaeth cefnogi teuluoedd a chefnogi pobl ehnagach.
- 5.23 Mi fydd y Cabinet eisoes yn ymwybodol o'r galw cynyddol ar y gwasanaeth Digartrefedd yn dilyn dyfodiad Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae tystiolaeth hefyd i awgrymu bydd y cynnydd hwn yn parhau gyda chyfran uchel iawn o bobl sengl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Mae cynnydd o 36% mewn aelwydydd yn derbyn gwasanaeth yn 2017/18 o'i gymharu â 2014/15.

- 5.24 Adroddwyd gan yr Uned Ddigartrefedd yn ystod y cyfarfod perfformiad bod canran uchel o'r rhai sydd yn cyflwyno yn ddigartref i'r Cyngor yn bobl sydd yn gadael carchar. I'r perwyl hyn mae'r Uned wedi datblygu cynllun ailsefydlu carcharorion sydd yn ffordd newydd o weithio sydd yn rhoi'r unigolyn yn ganolog. Mae'r Swyddog 'Ail Sefydlu' yn un pwynt cyswllt sydd yn darparu gwasanaethu o fewn y carchar ac ar ôl i'r unigolion cael eu rhyddhau o'r carchar. Mae cydweithio agos yn digwydd gyda'n partneriaid allweddol ac yn ystod 2017/18 bu i'r Swyddog weithio gyda chyfanswm o 120 unigolion gyda 41% yn cael eu lletya. Diffyg eiddo un llofft gyda chefnogaeth ar gyfer pobl sengl bregus sydd yn gadael carchar yw'r rhwystr mwyaf i'r grŵp yma o unigolion.

Mae A yn ei 50au gyda hanes hir o droseddu a chamddefnyddio sylweddau. Mae wedi dioddef camdriniaeth yn y gorffennol. Bu i A dderbyn gwasanaeth drwy'r Cynllun Ail Sefydlu. Bu i A fyw mewn un o'n hosteli yn gychwynnol, yn dilyn cefnogaeth llwyddodd i gael tenantiaeth gyda cynllun Tai a Cymorth Gwasgaredig Gwynedd. Bu iddo dderbyn cymorth i ddeall rheolau'r tŷ, ei hawliau a'i gyfrifoldebau fel tenant, cymorth gyda cyllidebau a chynhwysiant ariannol ac erbyn hyn mae'n rheoli ei denantiaeth yn arbennig o dda.

Mae'r effaith cymorth a llety sefydlog ar A yn sylweddol. Nid yw'n troseddu ac mae yn fodlon derbyn cefnogaeth arbenigol ar gyfer ei gamddefnydd o sylweddau. Nid yw A yn barod i fod mewn gwaith eto ond yn hapus i dderbyn cefnogaeth i gymryd rhan mewn addysg.

- 5.25 Yn ymateb i'r o ddiffyg eiddo un llofft, mae'r gwasanaeth yn gweithio ar y cyd gyda'r asiantaeth Trydedd Sector, Cais i adnabod eiddo ar gyfer pobl sengl bregus yn Ardal Bangor. Mae cynllun yn cael ei ddatblygu fydd yn darparu llety a chefnogaeth ddwys, gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau unigolion yw galluogi i fyw yn annibynnol.
- 5.26 Datblygiad arall o fewn y maes digartrefedd yw'r prosiect 'cefnogaeth ddwys i bobl sydd yn cysgu allan'. Mae'r gwasanaeth yn cydweithio gyda Thai Gogledd Cymru a drwy help grant Llywodraeth Cymru mae swyddog cefnogaeth wedi cael ei benodi i geisio annog pobl i gydweithio, helpu i ddatrys eu problemau a'u cefnogi i symud ymlaen i lety sefydlog.

Roedd person sengl wedi bod yn cysgu allan ger drws siop yn y dref ers rhai misoedd. Roedd y gwasanaeth digartrefedd yn derbyn nifer o alwadau ffon gan y cyhoedd a gan perchennog y siop yn poeni am gyflwr iechyd yr unigolyn. Daeth yn amlwg fod yr unigolyn yn wael, gyda anghenion iechyd meddwl dwys yn ogystal a iechyd corfforol gwael iawn. Bu i'r swyddog cefnogaeth ymweld yn ddyddiol yn fuan yn y bore ac wedi llwyddo i ddatblygu perthynas gyda'r unigolyn. O ganlyniad bu iddo dderbyn cymorth a derbyn triniaeth yn yr ysbyty am ei gyflwr meddygol. Bu i gyswllt parhau tra yn yr ysbyty ac mae trefniadau mewn llaw i ddarparu llety pan fydd yn barod i adael yr ysbyty.

- 5.27 I'r perwyl hyn, mae'r Adran wedi cyflwyno cais am arian 'Rhaglen Tai Arloesol' Llywodraeth Cymru ac wedi bod yn llwyddiannus i ddenu arian ar gyfer datblygu unedau hyblyg 'pods'. Bydd yr unedau yma yn cynnig cartref gyda chefnogaeth i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau sydd yn anodd eu lleoli, y bwriad bydd datblygu 4 'pod' ar gyfer 4 unigolyn. Bydd gwaith yn cychwyn yn fuan ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.
- 5.28 Mae'r mesurydd **nifer o ddiwrnodiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi grant cyfleusterau anabl (247 diwrnod)** yn dangos peth llithriad. Serch hyn, mae'r uned wedi holi 96 person sydd wedi derbyn addasiad sydd wedi ei gwblhau yn ystod y

ddau chwarter cyntaf o'r flwyddyn. Dywedodd 90% ohonynt eu bod yn fodlon iawn gyda'r addasiadau a 86% yn cytuno yn gryf iawn bod eu hansawdd bywyd wedi gwella.

- 5.29 Mae'r Uned addasiadau wedi bod yn craffu achosion yn fanwl ac yn adrodd mai rhwystr mwyaf i gwblhau'r addasiadau yn amserol yw'r diffyg ar hyn o bryd mewn niferoedd o therapyddion galwedigaethol sydd ar gael i wneud yr asesiadau sydd eu hangen. Yn ogystal i hyn mae'r Uned o'r farn bod modd cynnig ymyrraeth ataliol yn gynharach fydd yn osgoi'r angen am addasiadau cymhleth ac ar amser ble mae cyflyrau wedi gwaethygu. Mae sawl cynnig wedi cael eu rhoi gan yr Uned i geisio ymateb i'r materion yma fydd yn derbyn sylw dros yr wythnosau nesaf gan yr Adran ehangach.
- 5.30 Mae'r **Tîm Tag Gwag** wedi gweld llwyddiant ysgubol ar eu cynllun 'Grantiau i brynwyr tro cyntaf'. Dros y 9 mis diwethaf, mae'r Tîm wedi derbyn 115 o geisiadau am y grant hwn, ac eisoes wedi cymeradwyo gwerth £1.5 miliwn o grant ar 85 o'r ceisiadau hyn. Bydd yn cartrefu bron i 200 o unigolion a theuluoedd. Ers cychwyn y cynllun mae'r Tîm wedi gweld cynnydd yn y nifer o geisiadau am flaendal morgeisi sydd ar gael i helpu prynwyr tro cyntaf cael mynediad i'r farchnad dai.
- 5.31 Bydd y Cabinet yn ymwybodol bod nifer o dai gwag yn uchel ar draws y Sir a bod yr Adran yn gweithio i ddod a'r tai hyn yn ôl i ddefnydd i drigolion Gwynedd. Mae oddeutu 1300 o dai yn wag ar draws y Sir. Mae cynnydd positif wedi bod yn erbyn y mesurydd **PSR/004 Canran o anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1af Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol**. Erbyn diwedd y cyfnod perfformiad yma mae 14 tŷ wedi dod yn ôl i ddefnydd gyda 33 o bobl Gwynedd wedi cael eu cartrefu.

6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

- 6.1 O ran y cynllun rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithiol, bydd Cwmni Byw'n lach Cyf yn gyfrifol am reoli'r ddarpariaeth cyfleusterau hamdden o 1af o Ebrill 2019.
- 6.2 Mae £100,000 o arbediad 2018/19 y cynllun HAM4 Rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithiol wedi ei gyflawni, ond derbyniwyd cymeradwyaeth y Cabinet 16 Hydref 2018 i ailbroffilio'r £156,500 o'r arbedion gan na fydd y ddarpariaeth cyfleusterau hamdden yn trosglwyddo i Gwmni Byw'n lach Cyf bellach tan 1 Ebrill 2019. Mae'r £131,410 ar gyfer 2019/20 ar drac i gyflawni'n amserol.
- 6.3 O ran y maes Tai, ers adrodd i'r Tîm Herio Perfformiad ym mis Medi, gallaf gadarnhau bod yr Adran ar drac i wireddu £89,000 o arbedion.
- 6.4 Gwariant Tebygol Cynlluniau Cyfalaf y maes Tai 2017-18 yw £4.3m. Mae hyn yn cynnwys £950k ar grantiau i'r anabl i addasu eu cartrefi (sydd yn cynnwys Grant Llywodraeth o £150k); £1.35m ar gynlluniau prynwyr tro cyntaf a dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd; a grant o £1.36m gan y Llywodraeth i ddatblygu safle sipsiwn; £250k ar gyfer y Cynllun TRIP (Targeted Regeneration Investment Programme) sydd yn gynllun ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn; £410k ar faterion eraill yn cynnwys materion gorfodaeth.

7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1. Dim i'w nodi.

8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

8.1. Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau ynglyn a phriodoldeb

ii. Y Pennaeth Cyllid:

Cadarnhaf gywirdeb y ffigyrau ariannol a gyflwynir yn rhan 6 o'r adroddiad.

8.2. Barn yr Aelod Lleol:

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

8.3.1 Dim i'w nodi.

Atodiadau:

Atodiad 1 –

Mesurau
Perfformiad
Hamdden a
Diwylliant

Atodiad 2 –

Mesurau
Perfformiad
Tai

Dogfennau Cefndirol:

Dim.